

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	8 Gorffennaf 2020
Aelod / Swyddog Arweiniol	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr Adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Archwiliad Mewnol o Reoli Contractau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion adroddiad Archwilio Mewnol diweddar o Reoli Contractau a dderbyniodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio wedi cytuno y bydd yn derbyn ac yn trafod yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol sy'n derbyn sgôr sicrwydd 'Isel' fel y gallant drafod y canlyniad a derbyn sicrwydd y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad ac yn penderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddar pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

4. Manylion yr Adroddiad

Cytunodd y timau Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Dinbych i gynnal archwiliad ar y cyd i edrych ar gadernid gweithgaredd rheoli contractau ar draws y ddau Gyngor.

Cyhoeddwyd holiadur i staff sy'n ymwneud â gweithgaredd rheoli contractau ar draws y ddau gyngor a defnyddiwyd canlyniadau ar y cyd yr holiadur i gwmpasu'r archwiliad a chanolbwyntio'r profion manwl

Daeth ein harchwiliad i'r casgliad nad yw rheoli contractau, ar y cyfan, yn cael ei reoli'n dda o fewn gwasanaethau'r cyngor. Yn gyffredinol, nid yw staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn, ni chynhelir gwybodaeth rheoli contract allweddol, yn aml nid yw cyfarfodydd monitro yn cael eu dogfennu, ac nid yw canlyniadau'n cael eu hadrodd. Roedd pocedi o arfer da, gyda chwpl o feysydd gwasanaeth a allai ddangos bod contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol

Ymhlith y materion allweddol eraill a amlygwyd mai:

- Er bod cofrestr contractau yn cael ei phoblogi â chontractau hanesyddol, roedd yn anodd dod o hyd i rai contractau wedi'u llofnodi
- Ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant rheoli contract corfforaethol i staff yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae staff wedi dibynnu ar hyfforddiant “yn y gwaith”.
- Roedd Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor (CPRs) yn nodi'r gofynion lefel uchel ar gyfer rheoli contractau, ond nid oedd staff yn gwbl ymwybodol ohonynt. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cydymffurfio mewn nifer o achosion.

Rydym o'r farn y bydd cryfhau hyfforddiant, darparu nodiadau canllaw a gwella trefniadau monitro yn sicrhau bod trefniadau rheoli contractau'r cyngor yn gwella i sicrhau'r perfformiad gorau o lawer o gontractau'r cyngor. Mae hefyd yn sicrhau bod tystiolaeth addas yn cael ei chynnal pe bai contract yn mynd i drafferthion fel y gellir cymryd camau pellach.

Ar gefn yr adolygiad hwn, mae papur yn cael ei baratoi ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i dynnu sylw at y gwendid a nodwyd gyda rheoli contractau a diffyg cydymffurfio â CPRs er mwyn cael eu cefnogaeth i yrru'r gwelliannau angenrheidiol ymlaen gyda phob maes gwasanaeth.

Mae copi o'r adroddiad archwilio llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.